# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Gorffennaf 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Craffu 2023-24** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn yr adroddiad.

**CEFNDIR A RHESYMEG**

1. Yn unol â’r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o’r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2. Mae’r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o’r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2023-24, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
    - Gweithdai Craffu
    - Adolygiad Archwilio Cymru
    - Fforwm Craffu
    - Pwyllgorau Craffu
    - Ymchwiliad Craffu
    - Grŵp Tasg a Gorffen
    - Herio Perfformiad
    - Hyfforddiant
    - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2023/24

3. Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw ‘Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd’. Amlygir yn yr adroddiad blynyddol effaith y gwaith craffu wrth gyflawni yn unol â’r pwrpas.

4. Crëwyd fersiwn cryno o’r adroddiad gyda’r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2023-24, mewn modd hawdd i’w ddarllen a chryno.

**ATODIADAU:**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2023-24
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Trafodwyd cynnwys posib yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 7 Mai 2024. Rhannwyd yr adroddiad drafft gydag aelodau'r Fforwm Craffu i dderbyn eu sylwadau.

## SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro:

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

### Swyddog Cyllid Statudol:

Credaf fod yr adroddiad yma yn adlewyrchiad teg o'r gwaith craffu eang a manwl a gyflawnwyd yn ystod 2023/24. Nid yw'r adroddiad yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.